# Mesur Addysg (Cymru) 2009

**2009 mccc 5**

## RHAN 1

APELAU A HAWLIADAU ADDYSG GAN BLANT

*Treialu*

### 18 Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch apelau a hawliadau gan blentyn

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud darpariaeth ynghylch—

(a) hawliau plentyn i apelio i Dribiwnlys Cymru mewn cysylltiad â materion y mae gan riant hawl i apelio mewn perthynas â hwy o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996;

(b) hawl person i wneud hawliad i Dribiwnlys Cymru mewn cysylltiad â materion y mae gan riant i'r person hwnnw hawl i wneud hawliad mewn perthynas â hwy o dan adran 28I o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995;

(c) unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r cyfryw hawliau;

(d) darparu cyngor a gwybodaeth i blant ynghylch materion sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig;

(e) darparu cyngor a gwybodaeth i blant anabl ynghylch materion sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion;

(f) gwasanaethau eirioli ynghylch anghenion addysgol arbennig neu wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion;

(g) trefniadau gyda'r bwriad o osgoi neu ddatrys anghytundebau rhwng—

(i) awdurdod addysg lleol (ar y naill law) a phlentyn (ar y llaw arall) ynghylch arfer gan awdurdodau swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996;

(ii) perchennog ysgol berthnasol (ar y naill law) a phlentyn (ar y llaw arall) ynghylch darpariaeth addysgol arbennig (o fewn ystyr “special educational provision” yn adran 312(4) o Ddeddf Addysg 1996);

(iii) corff sy'n gyfrifol am ysgol (ar y naill law) a phlentyn anabl (ar y llaw arall) ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd.

(2) Mae'r pŵer i wneud gorchymyn o dan is-adran (1) yn cynnwys pŵer—

(a) i ychwanegu, i ddileu neu i addasu hawliau;

(b) i ddiwygio neu ddiddymu un neu fwy o ddarpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Addysg 1996;

(c) i ddiwygio neu ddiddymu un neu fwy o ddarpariaethau Rhan 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995;

(d) i wneud diwygiadau canlyniadol a diddymiadau i ddarpariaethau yn y Deddfau hynny.

(3) Ni chaniateir arfer y pŵer i wneud gorchymyn o dan yr adran hon—

(a) cyn i adroddiad gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 17(3), neu

(b) ar ôl cyfnod o 24 o fisoedd yn cychwyn ar ddiwrnod olaf y cyfnod treialu a bennir mewn rheoliadau o dan adran 17(1).